

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	<a href="mailto:Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru">Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru</a>
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	06.10.23
Pwnc / Subject:	Cymru Wrth-hiliol

### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000<sup>1</sup> a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

<sup>1</sup> Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 o 1 Ebrill 2024, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

### Cyflwyniad

Rydym yn croesawu'r ymchwiliad sy'n edrych ar weithredu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae ein hymatebion wedi canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y maes polisi yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant. At ei gilydd, rydym yn awgrymu y dylid gwerthuso pa mor dda y mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith mewn sefydliadau addysg ledled Cymru, ac ystyried sut y dylid ei addasu a'i ddatblygu ymhellach i gyflawni ei weledigaeth am Gymru fel cenedl wrth-hiliol. Trwy ein gwaith arolygu a'n gwaith thematig, mae gan Estyn y potensial i ddarparu tystiolaeth barhaus ar ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Gan y bydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gosod eu hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028 dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddefnyddio'r cyfle hwn i hyrwyddo'r uchelgais ar gyfer Cymru Wrth-hiliol.

## Sylwadau gan Estyn

### Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

**Ystyried effeithiolrwydd camau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno'r cynllun, gan gynnwys beth sy'n cael ei wneud i 'arwain trwy esiampl' wrth ddefnyddio ymagwedd ragweithiol a thrawslywodraethol at hiliaeth**

**Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl ragweithiol o ran sicrhau bod camau perthnasol yn cael eu cymryd i gyflwyno'r cynllun. Mae Estyn yn rhoi cefnogaeth weithredol i Lywodraeth Cymru i wneud hyn. Er enghraifft, o ran y camau i sicrhau bod diwylliant ac arferion gwrth-hiliol yn cael eu hymgorffori ym mhob sefydliad AB a darparwr dysgu oedolion yng Nghymru, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Black Leadership Group, Colegau Cymru, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r camau sy'n ymwneud ag addysg bellach.**

**Trwy ein gweithgarwch arolygu, gwelwn fod y camau i sicrhau bod y cwricwlwm yn wrth-hiliol yn dechrau cael effaith mewn ysgolion, ond nid yw wedi cael ei ymgorffori'n llawn eto. Yn ein harolygiadau, rydym wedi nodi arfer gadarnhaol yn y maes hwn, er enghraifft yn Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî. Roedd yr arfer hon yn gysylltiedig â sut roedd yr ysgol wedi adolygu'r cwricwlwm a'u gwaith ynglŷn â chreu ethos cynhwysol yn gyffredinol. Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn ar dudalennau 9 a 10 eu hadroddiad arolygu, yn ogystal â thrwy astudiaeth achos arfer effeithiol sydd wedi'i chynnwys yn y dolenni isod.**

[Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî 2022 \(llyw.cymru\)](#)

[Taith Tuag at Gwricwlwm Gwrth-hiliol | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

Enghraifft arall o ble mae'r arfer hon yn effeithiol yw Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr. Mae'r adroddiad arolygu diweddaraf ar gyfer yr ysgol yn nodi: 'Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr ac yn trefnu ymweliadau addysgol yn effeithiol i gyfoethogi

ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion o agweddau pwysig ar eu dysgu. Er enghraifft, cymeron nhw ran mewn prosiect 'Cynefin', a oedd yn cynnwys ymchwilio i waddol gweithwyr mudol a'u teuluoedd a symudodd i ardal Rhaeadr i adeiladu Argae Elan. Mae hyn yn cyfoethogi gwybodaeth disgyblion am eu hanes a'r ardal leol, a'u dealltwriaeth ohono.'

Her barhaus allweddol i'r gweithlu addysg a hyfforddiant yw cynyddu nifer yr addysgwyr o gefndiroedd ethnig amrywiol, yn cynnwys y rhai sy'n symud ymlaen i swyddi arwain. Caiff gweithlu Estyn ei ddenu o'r gweithlu addysg, felly mae hyn yn her i ni, hefyd. Eleni, rydym yn peilota rhaglen ddatblygu ar gyfer darpar arolygwyr o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig yn y dyfodol i geisio arwain trwy esiampl a chyfrannu tuag at fynd i'r afael â'r her hon.

- Ystyried cynnydd a threfniadau monitro ar gyfer y Cynllun, gan gynnwys rôl y sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, iechyd, addysg), y trydydd sector a'r sector preifat, lle bo'n berthnasol

At ei gilydd, nid ydym yn teimlo bod cynnydd a threfniadau monitro'r cynllun ar gyfer addysg yn ddigon clir. Mae'r cynllun yn cyfeirio at dîm gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r grŵp atebolrwydd annibynnol. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr atebolrwydd allanol yn nodi y bydd yn gwahodd sefydliadau fel Estyn yn rheolaidd i gyfrif am gynnydd yn erbyn y cynllun, ond nid ydym wedi bod ag unrhyw gysylltiad â'r grŵp. Hefyd, nid ydym yn ymwneud â'r grŵp cymorth a her mewnlol arfaethedig ond yn teimlo y byddai ein profiad, ein tystiolaeth a'n safle fel adran anweinidogol y gwasanaeth sifil yn golygu ein bod yn ychwanegiad gwerthfawr at y trafodaethau hynny.

Nid yw'n ymddangos yr adroddwyd ar y graddau y bodlonwyd y camau a amlinellir o fewn y graddfeydd amser penodol. Gellid cryfhau rôl y sector cyhoeddus trwy ofyn iddynt am werthusiad o ba mor dda y maent wedi bod yn cyfrannu at y cynllun a ble maent yn credu bod angen mwy o ddatblygiadau.

- Archwilio cynnydd yr Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil, a phennu p'un a oes bylchau mewn casglu data, ac a yw data yn cael ei ddadansoddi'n effeithiol

Prin yw'r profiad rydym wedi'i gael o waith yr Uned Gwahaniaethau ar Sail Hil, felly ni allwn gynnig sylwadau digonol. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol i ni weld ystod y data ansoddol a meintiol sydd ar gael. O ran ein profiad ein hunain, mae rhywfaint o'r data a ddarparwyd wedi bod yn anghywir. Er enghraifft, yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol ar gyfer y cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol, adroddwyd nad oedd unrhyw benaethiaid yng Nghymru o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd neu Lleafrifoedd Ethnig. Roeddem yn gwybod bod hyn yn anghywir gan ein bod yn ymwybodol fod o leiaf un pennaeth yng Nghymru ar y pryd wedi bod yn bennaeth ers tro.

Rydym wedi nodi yn y gorffennol nad yw data y gellir ei gasglu bob amser ar gael mor hawdd i nodi gwahaniaethau a chefnogi gwelliant. Er enghraifft, yn ein hadolygiad o'r cwricwlwm 16-19<sup>2</sup> yn 2022, gwnaethom argymhelliad i Lywodraeth Cymru i 'Wella ansawdd y data sy'n cael ei gasglu a'i rannu er mwyn gallu dadansoddi cyrchfannau dysgwyr yn 16 oed a thu hwnt a'u deilliannau yn llawn, gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchoddedig ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwr, yr iaith mae'n ei ffafrio i ddysgu a'i ymgysylltiad mewn mentrau allweddol fel rhaglen Seren'.

---

<sup>2</sup> [Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

- Archwilio pa sianelau cyfathrebu a sefydlwyd i sicrhau bod pobl sydd â phrofiad bywyd yn cael eu hysbysu am gynnydd y cynllun a pha newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad iddo

Trwy ein hymnglymiad â Grŵp Llywio AB Cymru Wrth-hiliol, rydym yn ymwybodol fod rhywfaint o ymgynghori wedi digwydd gyda phobl â phrofiadau bywyd. Fodd bynnag, prin yw ein hymwybyddiaeth o ymgynghoriadau tebyg ynglŷn â chynnydd y cynllun ym meysydd eraill y cynllun.

- Gwerthuso effeithiolrwydd y Cynllun yn ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys p'un a yw camau wedi cael eu cyflawni, beth fu'r deilliannau allweddol hyd yma, a phennu pam nad yw unrhyw gamau heb eu cymryd wedi cael eu rhoi ar waith.

Byddem yn croesawu adroddiadau parhaus ar gynnydd y cynllun yn rheolaidd. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r cynllun wedi bod yn datblygu. Byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru werthuso effeithiolrwydd y cynllun yn ei flwyddyn gyntaf, a mynd i'r afael ag unrhyw gamau heb eu cymryd ac addasu'r cynllun yn briodol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dylid cyhoeddi hyn a'i rannu â'r holl randdeiliaid allweddol.

- Helpu deall ymhellach pa ymyriadau eraill sydd eu hangen i gefnogi cyflwyno'r cynllun a ph'un a oes rhwystrau rhag rhoi'r cynllun ar waith.

Rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i sefydliadau addysg adrodd ar ba gamau y maent yn eu cymryd i gefnogi cyflwyno'r cynllun, sut maent yn monitro'r camau hynny a beth yw effaith y camau. Er enghraifft, yn Estyn, rydym wedi diwygio'r camau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i ystyried Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru, ac rydym wrthi'n ei ymgorffori o fewn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2024-2028 ar hyn o bryd. Pe bai Llywodraeth Cymru yn derbyn a dadansoddi'r wybodaeth hon gan sefydliadau eraill hefyd, byddai'n ei galluogi i nodi'n rhwydd unrhyw feysydd o'u cynllun sydd angen eu datblygu ymhellach.

Bydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn datblygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer mis Ebrill 2024. Mae hwn yn gyfle delfrydol i sicrhau bod camau allweddol i gyflawni Cymru Wrth-hiliol yn cael eu cofnodi. Gallai Llywodraeth Cymru weithio'n agos â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau. Roedd yn siomedig nad oedd y llythyr diweddar a gawsom gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am ddiweddarau ein cynllun yn sôn o gwbl am Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Yn adroddiad thematig Estyn ar addysgu Hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gwnaed nifer o argymhellion a oedd yn bwydo i [Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU](#). Roedd hyn yn argymhell: 'Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Estyn o fewn tair blynedd i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith i gynnal adolygiad rhagarweiniol wedi'i anelu at ystyried sut mae ysgolion yn dechrau datblygu cwricwla sy'n adlewyrchu thema drawsbynciol amrywiaeth a pha fathau o gymorth pellach y gall fod eu hangen arnynt. Mae'r Gweithgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad thematig llawn o fewn pum mlynedd.' Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r adolygiadau hyn yn briodol fel blaenoriaethau yn ein llythyrau cylch gwaith yn y dyfodol a fydd yn helpu deall y sefyllfa bresennol ac unrhyw rwystrau wrth eu rhoi ar waith.

<sup>1</sup> [Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | Estyn \(gov.wales\)](#)